

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod	6 Chwefror 2025
Aelod Arweiniol -	Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, y Cynghorydd Barry Mellor
Pennaeth Gwasanaeth	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
Awdur yr Adroddiad	Rheolwr Traffig a Chludiant, Mike Jones
Teitl	Diweddariad ar Gynnydd y Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar gynnydd Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, sef Blwyddyn 1 o'r Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Adolygu'r cynnydd wrth i ni nesáu tuag at ddiwedd blwyddyn gyntaf y Cynllun yn erbyn y gweithgareddau a gynigwyd ar gyfer Blwyddyn 1 y Cynllun.

2.2. Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor am y cynigion ar gyfer Blwyddyn 2 y Cynllun (blwyddyn ariannol 2025-26), gan gynnwys un diwygiad a wnaed i raglen Blwyddyn 2 ers cyflwyno'r Cynllun y llynedd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau'n nodi cynnwys yr adroddiad, ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad arfaethedig, fel y bo'n briodol.

4. Manylion yr adroddiad

Cefndir

- 4.1. Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2024-25, cyflwynwyd Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio newydd y Cyngor. Mae copi o'r Cynllun Buddsoddi ynghlwm yn Atodiad A er gwybodaeth. Mae hwn yn gynllun pum mlynedd sy'n amlinellu'r gwaith yr ydym yn bwriadu ei gwblhau yn ein meysydd parcio dros y pum mlynedd hynny, er mwyn gwella cyflwr y meysydd parcio a'u cynnal a chadw'n dda.
- 4.2. Mae'r Cyngor yn gweithredu 47 maes parcio cyhoeddus ac mae 40 o'r rhain yn feysydd parcio talu ac arddangos. Mae'r gweddill ar gael i'w defnyddio yn rhad ac am ddim. Mae'n rhaid cynnal a chadw bob un o'r rhain.
- 4.3. Mae asedau amrywiol ym mhob un o'r meysydd parcio sydd angen eu cynnal a'u cadw a'u trwsio neu eu disodli os cânt eu difrodi. Ar gyfer meysydd parcio ar lefel wyneb; yr ased drytaf fel arfer fydd wyneb y maes parcio ei hun, sef tarmac fel arfer. Mae asedau eraill yn ein meysydd parcio ar lefel wyneb yn cynnwys waliau terfyn, cloddiau a ffensys; peiriannau talu ac arddangos; arwyddion a physt; marciau ffordd; biniau sbwriel; coed, gwrychoedd a llwyni; cyrbau; gylïau draenio; colofnau lamp; TCC; rhwystrau uchder, ac ati.
- 4.4. Mae gennym hefyd ddau faes parcio sy'n adeiladau. Y rhain yw Maes Parcio Canolog y Rhyl (y maes parcio tanddaearol gynt), a'r Maes Parcio Aml-lawr yn Lôn Ffynnon Barcer yn Ninbych. Yn ogystal â chynnwys nifer o'r asedau yn y meysydd parcio ar lefel arwyneb; mae'r meysydd parcio hyn yn cynnwys asedau mecanyddol a thrydanol; megis systemau awyru; systemau chwistrellu a phibelli sych. Yn ogystal â hynny, ceir strwythur yr adeilad ei hun, grisiau ac ardaloedd ategol, megis ystafelloedd peiriannau.

4.5. Mae gan bob maes parcio Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) unigol ar gyfer cynnal a chadw tiroedd. Mae cynnal a chadw tiroedd yn cynnwys gweithgareddau fel gwagio biniau, codi sbwriel, tocio cloddiau, a chwistrellu chwyn laddwr. Gwneir y gwaith hwn gan dîm Gwasanaethau Stryd y Cyngor, o fewn yr adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol.

Blwyddyn 1 y Cynllun Buddsoddi

- 4.6. Mae Atodiad B yn dangos y gwaith a gynigwyd ar gyfer Blwyddyn 1 y Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio. Darperir cynnydd yn erbyn pob eitem yn y golofn ar yr ochr dde.
- 4.7. Mewn termau ariannol, disgwylir i ychydig yn llai na 60% o'r gwaith arfaethedig gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Gellir trosglwyddo'r cyllid ariannol cyfalaf a ddyrannwyd ar gyfer y gwaith i'r flwyddyn ariannol newydd h.y. ni fydd yr arian yn cael ei golli os na chaiff ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 4.8. Er ein bod wedi gobeithio gwneud rhagor o gynnydd yn y flwyddyn ariannol bresennol yn erbyn y rhaglen Cynllun Buddsoddi, mae gennym dal swydd wag o fewn y tîm Meysydd Parcio yr ydym yn bwriadu ceisio ei llenwi yn y misoedd nesaf. Yn dilyn ymddeoliad aelod o staff o fewn y tîm Gwarchod y Cyhoedd, mae'r tîm Meysydd Parcio bellach yn rheoli gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig y Cyngor hefyd, sydd wedi cael rhywfaint o effaith ar ein gallu i ddarparu yn erbyn y Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio.
- 4.9. Mae rhywfaint o oedi wedi bod mewn perthynas â'r cynnig i gyflwyno rhwystrau uchder yn rhai o'r meysydd parcio yng Ngogledd Sir Ddinbych yn sgil problemau mewn perthynas â chadarnhad o ran tir trydydd parti. Er enghraifft, gall unrhyw achos lle mae gan drydydd parti hawl mynediad dros ein maes parcio gael effaith ar unrhyw fwriad i gyflwyno rhwystr uchder.
- 4.10. Mae'r Cynllun Buddsoddi hefyd yn cynnwys cynigion i beilota maes parcio ar gyfer cartrefi modur/cerbydau gwerau. Ers cynnwys y cynnig hwn y llynedd,

mae cwmpas y prosiect wedi datblygu ymhellach gyda chyfleusterau math Aire ar gyfer cerbydau modur megis cyflenwad dŵr glân, cyflenwad trydan a chyfleusterau gwaredu sbwriel bellach yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynigion hyn. Rydym yn gweithio ar y prosiect hwn â chydweithwyr o'r tîm Gwasanaethau Stryd Priffyrdd ar hyn o bryd.

4.11. Mae'r copi o'n Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio'n cynnwys ein cynigion ar gyfer Blwyddyn 2 y Cynllun, sef blwyddyn ariannol 2025-26. Yr unig newid i'r rhaglen Blwyddyn 2 ers cyflwyno'r Cynllun y llynedd yw ein bod wedi ychwanegu rhoi wyneb newydd ar faes parcio Gallt Melyd at y cynigion. Cyflwynwyd y newid hwn fel rhagarweiniad i'r posibilrwydd o gyflwyno ffioedd yn y maes parcio, sydd am ddim ar hyn o bryd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd y Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio'n cefnogi'r gwaith o ddarparu Sir Ddinbych lewyrchus, wedi'i chysylltu'n well, gwyrddach, tecach, diogel ac yn fwy cyfartal.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Rhoddir amcangyfrif o'r costau yn y Cynllun drafft Buddsoddi mewn Meysydd Parcio yn Atodiad D i'r adroddiad hwn. Bwriadwyd i'r mwyafrif o'r costau hyn gael eu hariannu o'r dyraniad Cyfalaf Bloc Traffig a Pharcio blynyddol. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn y cyllid cyfalaf sydd ar gael yn gyffredinol, a'r cynnydd araf o ran yr eitemau o fewn y cynllun, yn golygu nad oes unrhyw ddyraniad cyfalaf ar hyn o bryd ar gyfer meysydd parcio ym mlwyddyn ariannol 2025-26. Fodd bynnag, rydym yn cynnig cwblhau'r gwaith ym Mlwyddyn 1 y Cynllun i ddechrau cyn cyflwyno cais posibl am gyllid cyfalaf i'w ystyried gan Grŵp Craffu Cyfalaf.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Cynhyrchwyd Asesiad o Effaith ar Les pan ddatblygwyd y Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio yn gyntaf y llynedd. Er hwylustod, mae copi o'r Asesiad o Effaith ar Les ynghlwm â'r adroddiad hwn fel Atodiad C.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cyflwynwyd y Cynllun drafft Buddsoddi mewn Meysydd Parcio i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Chwefror 2024. Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar y cynnydd gan fod 12 mis bellach wedi mynd heibio, a gan ei fod yn un o'r awgrymiadau o fewn adroddiad Chwefror 2024.

8.2. Nid oes gofyniad statudol i gynhyrchu Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio, nac i ymgynghori arno. Fodd bynnag, ystyriwn ei fod yn arfer da defnyddio Cynllun o'r fath fel ffordd o gynllunio a blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf yn ein meysydd parcio.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel yr amlygir ym mharagraff 6.1 yn yr adroddiad, bydd cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor rŵan ac i'r dyfodol yn cael effaith anochel ar bob gwasanaeth. Er y bydd yna angen bob amser am ddyraniadau bloc cyfalaf, bu'n rhaid adolygu a lleihau maint dyraniadau bloc yn unol â hynny.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes gofyniad statudol i gynhyrchu Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio. Fodd bynnag, gallai methu â chynhyrchu Cynllun o'r fath arwain at ddefnydd aneffeithlon o adnoddau ariannol cyfyngedig i'w hail-fuddsoddi yn ein meysydd parcio.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Adran 7.4.2 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio o ran astudio effaith penderfyniadau a defnyddio polisïau.

Swyddog Cyswllt: Rheolwr Traffig a Chludiant

Rhif ffôn: 01824 706959